

# Y PWYLLGOR PERSONÉL

15 Mai 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Mr A Archer, Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, y Cynghorydd M Evans, Mrs J James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd M Williams (yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd A Wilcox) a'r Cynghorydd S Yelland.

Roedd y Cynghorydd R Owens hefyd yn bresennol, fel yr awdurdodwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2019.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.55am)

## 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth Mrs G Hayward a'r Cynghorydd A Wilcox.

## 2. Datgan buddiant

Datgelwyd buddiant personol a/neu niweidiol gan y canlynol:

- (a) Y Cynghorydd A Wilcox: buddiant personol a niweidiol, a gadawodd y cyfarfod. Yn sgil hynny, daeth y Cynghorydd M Williams i ddirprwyo ar ran y Cynghorydd Wilcox;
- (b) Datgelodd pob un o'r Aelodau eu bod yn adnabod un neu ragor o'r ymgeiswyr mewn sefyllfa waith, ond na fyddai hynny'n effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019.

## 4. Gwahardd y cyhoedd

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra byddai'r eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 5. Penodi Cyfarwyddwr Cyfeiriad y Parc a Chynllunio

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod, fel y cytunwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod blaenorol, wedi cynnal sifft gychwynnol o'r ceisiadau a ddaeth i law ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cyfeiriad y Parc a Chynllunio. Yn sgil



hynny, roedd deg cais wedi'u dosbarthu i'r Aelodau i'w hystyried. Fodd bynnag, roedd wedi cael cais y bore hwnnw yn holi a oedd yn rhy hwyr i wneud cais. Dim ond y diwrnod cynt yr oedd y person hwnnw wedi gweld yr hysbyseb, a dyna pam nad oedd wedi gwneud cais cyn y dyddiad cau.

Tybiai'r Aelodau y byddai hyn yn annheg i'r rhai a oedd wedi cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau, ac ychwanegwyd na allent gymharu cais y person hwnnw gyda chais y rhai a oedd ger eu bron y diwrnod hwnnw. Soniwyd hefyd, pe byddai'r Pwyllgor yn penderfynu peidio â rhoi unrhyw ymgeiswyr ar y rhestr fer y diwrnod hwnnw, y gallai'r person dan sylw wneud cais am y swydd os byddai'n cael ei hailhysbysebu.

**PENDERFYNWYD** peidio ag ystyried y person hwnnw yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer.

Aeth y Pwyllgor rhagddo i ystyried y deg cais a oedd ger eu bron, ac ar ôl trafodaeth faith, **PENDERFYNWYD** gwahodd chwech ymgeisydd am gyfweiliad ar 03/04 Mehefin 2019.

#### **6. Penodi Swyddog Monitro**

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau nad oedd dim byd pendant wedi'i gytuno hyd yma er y cafwyd trafodaeth gadarnhaol â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yng Nghyngor Sir Penfro. Roedd yn awgrymu bod y swydd yn cael ei hysbysebu oni wneir unrhyw gynnydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

**NODWYD.**

